Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	01.12.25
Pwnc / Subject:	Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: canllawiau drafft i ymarferwyr

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r canllawiau anstatudol drafft arfaethedig newydd ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ar gychwyn, datblygu ac adolygu cynlluniau addysg personol (CAPau).

Rydym yn cydnabod gwerth cyflwyno canllawiau sy'n gosod y cyd-destun i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gael CAP o ansawdd uchel hyd nes bydd wedi gorffen addysg statudol.

Mae Estyn yn cefnogi drafftio canllawiau anstatudol sydd wedi'u bwriadu i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r canllawiau arfaethedig yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer dealltwriaeth ar draws asiantaethau ar greu, adolygu a gwella CAPau.

Mae cysylltiadau cryf rhwng cael profiad o fod mewn gofal a chael anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Amlygodd adroddiad thematig diweddar Estyn ar ADY[2] fod gwendidau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn codi pryder penodol ynghylch tegwch ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a allai wynebu 'anfantais ddwbl' os na ellir diwallu eu hanghenion ADY trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft trwy gyfarfodydd CAP a dogfennau perthnasol. Gellid cryfhau'r canllawiau trwy gyfeirio'n eglur at y risg hon.

Negeseuon allweddol

- Sicrhau cysondeb ledled Cymru – gosod disgwyliadau gofynnol ar gyfer ansawdd CAP, hyfforddiant proffesiynol (sy'n ystyriol o drawma ac ymlyniad), a chasglu data.

[2] Adroddiad thematig – Y system anghenion dysgu ychwanegol - Estyn

- Cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddwyieithog – gofyn i CAPau gofnodi dewis ieithyddol a sicrhau mynediad teg at addysg a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mynd i'r afael â gwendidau mewn darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg fel nad yw dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag ADY yn cael eu rhoi dan anfantais ddwbl.

Defnyddio tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg – mae Estyn wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad thematig o ddeilliannau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal (disgwylir adroddiad yn 2026). Dylid defnyddio'r canfyddiadau i gryfhau canllawiau ymarferol ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1: A ydych chi'n cytuno y bydd y cyngor a ddarperir yng nghanllawiau'r cynllun addysg personol (CAP) yn cynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i wneud y broses o lunio CAP yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal?

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Mae Estyn yn credu y bydd y cyngor yn darparu gwybodaeth sy'n gwneud y broses o lunio'r CAP yn fwy ystyrlon. Mae map y broses o lunio'r CAP yn darparu siart llif glir a defnyddiol yn amlinellu'r broses gychwynnol ar gyfer CAP ynghyd ag astudiaethau achos addysgiadol awdurdodau lleol unigol a phrofiadau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, bydd effaith y canllawiau hyn yn dibynnu ar ba mor glir a chyson yw'r disgwyliadau. Heb safonau cenedlaethol, mae risg o amrywiad a dehongli rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau eraill.

Mae'r canllawiau yn cyfeirio at lawer o ddogfennau eraill yn gysylltiedig â dyletswyddau awdurdodau lleol y dylid eu darllen ar y cyd â'r canllawiau arfaethedig, er enghraifft Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya). Gallai hyn atal awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ymhellach o ran cael eglurder ar ddisgwyliadau o ganlyniad i wahanol ddehongliadau a mynediad amrywiol at wybodaeth, gan felly wanhau'r effaith y gallai'r canllawiau arfaethedig ei chael.

Mae'r canllawiau yn crybwyll y bydd templedi archwilio CAP ar gael pan fydd y ddogfen canllawiau terfynol yn cael ei chyhoeddi i gynorthwyo awdurdodau lleol i greu rhywbeth tebyg. Heb ddogfen genedlaethol i gynorthwyo â phroses sicrhau ansawdd CAPau, mae perygl y bydd amrywiad a gwahanol fodelau'n dod i'r amlwg, a fydd o bosibl yn rhwystro gwerthuso ansawdd ac effaith CAPau yn effeithiol ledled Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn croesawu templed a dull cenedlaethol i helpu sicrhau cysondeb.

Yn ychwanegol, mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig o ddeilliannau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i'w gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Gellid defnyddio

canfyddiadau o'r gwaith hwn yn fuddiol i gryfhau canllawiau yn y dyfodol a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf ar beth sy'n gweithio.

C2: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i wneud CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal?

Anghytuno

Nid yw Estyn yn cytuno bod y canllawiau hyn yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i wneud CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

Gellid cryfhau'r canllawiau hyn trwy gynnwys y disgwyliadau gofynnol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid i bob CAP ei gynnwys, pa mor aml y caiff ei adolygu, a sut mae'n cofnodi safbwyntiau'r plentyn.

Gallai fframwaith cenedlaethol sylfaenol ddarparu cyfle i leihau baich gwaith athrawon, galluogi mwy o eglurder ar gyfer plant sy'n symud rhwng awdurdodau, a helpu Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i ddeall a chynorthwyo'r plant yn eu lleoliadau yn gyflym.

Rydym yn cydnabod bod angen hyblygrwydd lleol. Fodd bynnag, bydd arfer yn parhau i fod yn hynod amrywiol ledled Cymru heb fframwaith canolog clir i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau weithio yn ei erbyn. Mae platfform cenedlaethol yn well ar gyfer cysondeb, tryloywder ac atebolrwydd, yn ogystal â llai o faich gwaith.

C3: Os oeddech chi'n anghytuno â'r datganiad yng nghwestiwn 2, beth arall y dylid ei gofnodi yn y canllawiau?

Credwn fod angen mwy o ffocws ar addysg o fewn y canllawiau. Byddai'r canllawiau'n elwa ar gael eu cryfhau i roi eglurder ynghylch rôl addysgol y CAP. Felly, dylai gynnwys:

- Sut i adrodd yn effeithiol ar olrhain cynnydd a phresenoldeb ac nid cyrhaeddiad yn unig.
- Sut i ddefnyddio'r CAP yn fwy effeithiol i gynllunio ar gyfer cyfnodau pontio.
- Sut i hyrwyddo'r defnydd o CAPau i alluogi lleoliadau ysgol mwy sefydlog, yn enwedig yng nghyd-destun y tarfu a fu ar addysg llawer o blant sy'n derbyn gofal.
- Sut i gysylltu ag adolygiadau ADY, lle bo'n berthnasol, i sicrhau bod cysondeb gwell ar waith a bod y bobl gywir yn y lle cywir ar gyfer yr adolygiadau. Byddai hyn yn cynorthwyo â deilliannau ystyrlon ac effeithiol ar gyfer y person ifanc.

C4: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n darparu cyngor digonol i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ar wneud i'r broses o lunio'r CAP ganolbwyntio ar y plentyn?

Anghytuno

Mae'r canllawiau'n cyfeirio at yr angen i CAPau ganolbwyntio ar y plentyn. Fodd bynnag, byddent yn elwa ar gael eu cryfhau i sicrhau bod eglurder ynghylch sut beth yw hynny yn ymarferol. Er enghraifft, gallai gynnig arweiniad ar sut caiff llais y plentyn ei gofnodi, a sut y gweithredir arno, yn enwedig yn ystod adolygiadau a chyfnodau pontio. Hefyd, byddai cydnabod defnydd o'r Gymraeg yn y broses o lunio'r CAP i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn (lle bo'n briodol) yn fuddiol.

Yn ychwanegol, byddai'n fuddiol cael mwy o ganllawiau ar sut gall Proffiliau Un Dudalen gael eu rhannu a'u defnyddio'n effeithiol, yn enwedig i gynorthwyo wrth rannu gwybodaeth o fewn cyfarfodydd a chynorthwyo cyfnod pontio o un lleoliad i un arall.

Yn olaf, dylid gosod disgwyliadau gofynnol ar gyfer hyfforddiant (e.e. dulliau sy'n ystyriol o drawma ac yn ystyriol o ymlyniad) ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldebau rhianta corfforaethol a fyddai'n cefnogi'r ffocws ymhellach ar ganolbwyntio ar y plentyn.

C5: A oes unrhyw ffynonellau cymorth neu adnoddau eraill y gallai fod yn ddefnyddiol eu hamlygu yn y canllawiau?

Sylwadau:

- Adroddiadau thematig diweddar Estyn a'r adroddiadau thematig sydd ar ddod
- Hyrwyddo addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal[3]
- Ymagwedd ysgol gyfan at gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)[4]
- Hyfforddiant neu adnoddau cenedlaethol sydd ar gael i ofalwyr maeth a thimau Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- Deunyddiau cymorth cyfrwng Cymraeg gan y Coleg Cymraeg ac eraill

C6: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydyn

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

Ydyn

[3] Mae gwybodaeth ar gael yn Adroddiadau thematig ar gyfer 2025/26 - Estyn
[4] Ar gael yn Dull ysgol gyfan i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) - Estyn

Mae Estyn yn croesawu cyfleoedd i ddefnyddio a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n bwysig fod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael mynediad cyfartal i leoliadau addysg a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yn y canllawiau hyn, mae cyfeiriad cyfyngedig at gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, eu CAPau, cyfarfodydd a dogfennau trwy gyfrwng y Gymraeg neu sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.

Yn ychwanegol, mae cysylltiadau cryf rhwng plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Canfu gwaith thematig Estyn ar ADY fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY yn anghyson, ac yn wan, mewn rhai ardaloedd. Mae i hyn oblygiadau i degwch: heb gamau targedig, gallai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag ADY wynebu 'anfantais ddwbl' o ran sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg briodol.

Byddai cryfhau'r canllawiau i adlewyrchu hyn yn helpu diogelu eu hawliau a sicrhau bod yr egwyddor i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael ei chyflawni yn ymarferol.

C7: Yn eich barn chi, a allai'r canllawiau gael eu ffurfio neu'u newid er mwyn gwneud y canlynol:

· cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

· liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Gallent

Rydym yn cefnogi'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae cyfeiriad cyfyngedig yn y canllawiau hyn at gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy:

- Ofyn bod CAPau yn cofnodi dewis a darpariaeth ieithyddol. Mae hyn yn bwysig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer cydymffurfio â Mesur y Gymraeg
- Sicrhau bod gofalwyr maeth a lleoliadau preswyl yn gallu elwa ar gymorth Cymraeg

Mae potensial ar gyfer effaith gadarnhaol os yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r canllawiau i gryfhau darpariaeth ddwyieithog. Yn ychwanegol, gellid cryfhau'r canllawiau pe baent yn gofyn am dempledi CAP dwyieithog a bod gwiriadau'n cael eu gwneud fel bod dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n briodol.

C8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

O ran casglu data a thema atebolrwydd, teimlwn y byddai'n fuddiol i wybodaeth CAP gyfrannu at banelau rhianta corfforaethol lleol a thystiolaeth arolygu yn hytrach na'u bod ar wahân.

Yn ystod ein harolygiadau o ysgolion annibynnol, rydym yn parhau i nodi gwendidau ym monitro awdurdodau lleol o ran ansawdd profiadau a deilliannau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu hariannu gan awdurdod lleol i fynychu ysgol annibynnol. Byddai'r cyfle i gryfhau ymwybyddiaeth ymhellach o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau annibynnol a chryfhau monitro awdurdodau lleol o ran ansawdd profiadau a deilliannau addysgol yn y canllawiau yn cael ei groesawu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: